



Dinas a Sir Abertawe

## Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Addysg

O bell drwy Microsoft Teams

Dydd Iau, 17 Rhagfyr 2020 am 4.00 pm

**Yn Bresennol:** Y Cyngorydd L R Jones (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

### Y Cyngorydd(wyr)

C Anderson  
S J Gallagher  
L James

### Y Cyngorydd(wyr)

A M Day  
D W Helliwell  
S M Jones

### Y Cyngorydd(wyr)

M Durke  
B Hopkins  
M A Langstone

### Aelodau

#### Cyfetholedig(wyr)

D Anderson-Thomas

### Aelodau

#### Cyfetholedig(wyr)

### Aelodau Cyfetholedig(wyr)

### Hefyd yn bresennol

J A Raynor  
R V Smith  
N Brazil  
Helen Burgum  
Beth Titley

Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau  
Cadeirydd y Pwyllgor Datblygu Polisi Addysg  
Coleg Gŵyr  
Ysgol Gyfun yr Esgob Gore  
Gyrfa Cymru

### Swyddogion

Helen Morgan Rees  
Chris Rees  
David Bawden  
Michelle Roberts

Cyfarwyddwr Addysg Dros Dro  
Arweinydd Dysgu – Cymhwysedd Digidol  
Swyddog Addysg 14-19  
Swyddog Craffu

### Ymddiheuriadau am absenoldeb

Y Cyngorydd(wy): L Tyler Lloyd  
Aelodau Cyfetholedig(wyr): A Roberts

---

#### 1 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Derbyniwyd datgeliadau o fuddiannau gan y Cyngorwyr Mike Day, Mike Durke, Myles Langstone a Susan Jones.

#### 2 Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau

Dim

#### 3 Llythyrau a'r Cofnodion

Derbyniwyd y llythyrau a'r Cofnodion gan y panel.

#### 4 **Cwestiynau gan y Cyhoedd**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

#### 5 **Partneriaeth Sgiliau Abertawe**

Rhoddodd Helen Morgan Rees, Cyfarwyddwr Addysg, gyflwyniad ar sefyllfa a blaenoriaethau presennol Partneriaeth Sgiliau Abertawe (a elwir hefyd yn PSA), gan gynnwys:

- Ei bod wedi dechrau o argymhelliad i'r Cabinet ym mis Mehefin 2018 o waith a wnaed gan y Pwyllgor Datblygu Polisi Addysg. Gyda'r nod o gwrdd â'r cyfleoedd a ddarperir gan Fargen Ddinesig Bae Abertawe a sicrhau trefniant lleol cadarn i bartneriaeth fwydo i mewn i bartneriaethau rhanbarthol.
- Diben y PSA yw
  - hyrwyddo a datblygu Abertawe fel 'Dinas Dysg' ac i fod y gorau yn y DU
  - hyrwyddo a datblygu Abertawe fel 'Dinas Dysg' – alinio darparwyr â gweledigaeth a gwerthoedd a rennir
  - datblygu cynllun gweithredu lleol i hyrwyddo a datblygu Abertawe fel 'Dinas Dysg' i ysbrydoli plant a phobl ifanc
  - mewn partneriaeth, datblygu map ffordd ar gyfer sgiliau neu'r llwybr dysgu i atgyfnerthu'r negeseuon am gytundeb a chydweithredu ar bob lefel mewn addysg
  - nodi a datblygu ymhellach gyfleoedd cydlynol i ddysgwyr Abertawe
  - monitro a gwerthuso cynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu lleol a sicrhau cysylltiad priodol â chynllun gweithredu'r Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol
  - datblygu cyngor gyrfaeodd ymhellach gan gynnwys prentisiaethau a dysgu sy'n seiliedig ar waith ac ehangu'r ffocws i gynnwys cyfnod allweddol 3 a disgyblion cynradd
  - datblygu ymhellach hyfforddiant athrawon cychwynnol a chyfleoedd datblygu proffesiynol parhaus i staff mewn ysgolion
  - sicrhau bod prentisiaethau a dysgu sy'n seiliedig ar waith yn cyd-fynd ag anghenion sgiliau yn y dyfodol
- Mae angen iddo esblygu i gynnwys aelodaeth, momentwm, ei feysydd ffocws allweddol, cyfleoedd COVID. Mae angen gwneud rhagor o waith i ddatblygu ymhellach.
- Mae rhai o ganlyniadau allweddol y PSA hyd yma yn cynnwys: Meithrin gallu, cyngor ac arweiniad digidol ar gyfer gyrfaeodd, y camau nesaf o ran dysgu a galwedigaethau yn y dyfodol a chynyddu ymwybyddiaeth o Fargen Ddinesig Bae Abertawe.

Yna trafododd y Panel Bartneriaeth gyda thrawstoriad o'i aelodaeth.

- Mae wedi llwyddo i ddarparu mwy o fanylion a chanolbwyntio ar rai meysydd gan gynnwys, er enghraifft, gallu digidol a chyngor gyrfaeodd o ansawdd da.
- Roedd y Bartneriaeth wedi colli momentwm ychydig a bu rhywfaint o oedi.

Panel Perfformiad Craffu - Addysg (Dydd Iau, 17 Rhagfyr 2020)  
Cont'd

- Mae'r Panel yn falch o glywed am ganlyniadau cadarnhaol gwaith y partneriaeth hon gan gynnwys:
  - Roedd dysgu digidol yn ddewis amlwg ac yn cysylltu'n agos â phrosiect y Fargen Ddinesig ac mae hefyd wedi bod yn ddefnyddiol yn sefyllfa bresennol COVID.
  - Canolbwyntio ar gyngor ac arweiniad gyrfaoedd ar gyfer dysgu i'w helpu i wneud y dewisiadau cywir.
- Roedd y Panel yn awyddus i glywed am y llwyfan o'r enw 'Fy Newis' a ddatblygwyd, sy'n unigryw i ardal Abertawe. Clywodd y Panel nad oedd cyngor ac arweiniad ar gyfer dysgu galwedigaethol wedi bod ar gael mewn un lle i Flwyddyn 11 hyd yn hyn, er mwyn iddynt ddod o hyd i gyngor a gwybod ble i ddod o hyd i gyfleoedd. Datblygwyd llwyfan felly i wneud hyn. Gall ysgolion gael cyngor ac arweiniad diduedd, ac mae hefyd ffurflenni ceisiadau cyffredin ar gyfer y 6ed Dosbarth, Colegau a dysgu sy'n seiliedig ar waith. Gall dysgwyr hefyd weld beth sy'n digwydd yn Abertawe, dod o hyd i gyfleoedd posib ar gyfer y dyfodol ac mae'n rhoi dolenni i wefannau eraill. Mae Llywodraeth Cymru yn edrych ar y llwyfan i weld sut y gellir ei rannu fel arfer da i eraill ei ddefnyddio.
- Clywodd y Panel fod dysgu a gallu digidol wedi newid yn llwyr dros y 9 mis diwethaf a'i fod bellach yn angenrheidiol. Mae'n bwysig i bobl ifanc wybod beth yw gyrfaoedd digidol a pha rai fydd ar gael yn enwedig gyda'r arena newydd a chyfleoedd gwaith posib. Cafwyd trafodaeth am y Fargen Ddinesig a sut mae'n bwysig bod pobl ifanc yn Abertawe yn ddigon medrus i gael y swyddi gorau yn ogystal â rolau eraill sydd ar gael.
- Dywedwyd wrth y Panel hefyd am bwysigrwydd parhaus datblygiad proffesiynol i athrawon, colegau a phrifysgolion o ran sut y caiff gwersi eu haddysgu gan ddefnyddio dyfeisiau a thechnoleg, drwy gael yr addysgeg gywir.
- Roedd y Panel yn falch o glywed mai'r PSA oedd yr union beth oedd gan y Pwyllgor Datblygu Polisi Addysg mewn golwg pan gyflwynwyd ei argymhelliad i'r Cabinet yn 2018. Maent yn falch o weld bod y cwricwlwm yn cyd-fynd yn well ag anghenion sgiliau yn lleol ac yn genedlaethol. Cytunodd y Panel â Chadeirydd y Pwyllgor Datblygu Polisi pan ddywedodd y dylai elfen alwedigaethol fod yn rhan o brofiad addysgol pob plentyn. Roedd yn hapus â'r hyn y gall y bartneriaeth ei gyflawni, gan gredu bod angen iddo fod yn ddeinamig ac yn gallu newid wrth i bethau ddatblygu, gan gynnwys datblygu'r cwricwlwm newydd a sgiliau sy'n seiliedig ar waith cyffredinol.
- Dywedodd Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau wrth y Panel mai cryfder y partneriaethau yw cael sefydliadau'n rhan ohonynt sydd o gwmpas eu pethau o ran y gymuned fusnes, er enghraifft, colegau sydd â chysylltiadau bwyd â chyflogwyr. Hefyd bod angen canfyddiad ehangach o beth yw pwrpas cyflogaeth yn y dyfodol, er enghraifft, mae angen i gyflogwyr fod yn hyblyg, gyda sgiliau trosglwyddadwy da a'r gallu i farchnata eu hunain.
- Mae'n bryd i ni ddechrau meddwl am yr hyn sydd nesaf i'r bartneriaeth. Mae'r angen i gadw momentwm a NEETs wedi'i nodi gan ei fod yn cynnwys nifer o bartneriaid. Codwyd yr enghraifft o'r gwaith da ar NEETs yn Ysgol Gyfun Pentrehafod. Mae hyn yn dangos yr hyn y gellir ei gyflawni a chyda chyfranogiad yr holl bartneriaid gellir cyflawni llawer mwy.
- Roedd cynghorwyr yn falch o glywed am yr ymrwymiad, yr wybodaeth a'r profiad y mae aelodau unigol o'r Bartneriaeth yn eu cyflwyno ac yn cydweithio i wella dysgu a chyfleoedd pobl ifanc yn Abertawe.

- Mae nifer o wahanol bartneriaethau ar gael, gofynnwyd a oedd unrhyw ddyblygu o ran gweithgarwch? Clywodd y Panel fod partneriaethau eraill ar gael ac mae rhywfaint o orgyffwrdd ond nid dyblygu yw hyn, ac mae o fudd i Abertawe, megis gwaith o amgylch y cwricwlwm newydd a chynnig dysgu o ansawdd da a chafwyd rhywfaint o fudd o raglenni rhanbarthol a gynigir gan y rhanbarth.
- Gofynnodd y Panel sut mae gwersi yn cael eu dysgu o fewn y Bartneriaeth fel y gellir eu gwella. Clywodd y Panel fod y Bartneriaeth yn defnyddio gwybodaeth leol i lywio cynllunio'n lleol ac mae hynny'n amlwg mewn prosiectau hyd yn hyn.
- Mae'r Bartneriaeth wedi gweithio'n dda ac mae cael cynrychiolydd o'r tu allan i Abertawe fel Castell-nedd Port Talbot yn gadarnhaol er mwyn gallu gweithio ar draws ffiniau a chydag ystod eang o bartneriaid er budd ein dysgwyr.
- Dywedwyd wrth y Panel, er mwyn gwella a symud ymlaen ymhellach y bydd angen iddynt wneud y canlynol:
  - Ailedrych ar ddiben a bwriadau gwreiddiol a chynnwys mwy o feddwl o'r newydd gan gynnwys cyfranogiad gan y gymuned fusnes.
  - Adnewyddu blaenoriaethau wrth symud ymlaen.
  - Adeiladu ar y momentwm presennol (hanfodol i beidio â cholli momentwm nawr yn enwedig wrth symud i'r byd ar ôl COVID)
  - Canolbwyntio ar un neu ddau o is-grwpiau allweddol y dylai un ohonynt fod yn NEET.

Roedd y Panel yn falch o glywed am yr effaith gadarnhaol y mae'r partneriaethau'n ei chael, yn arbennig mewn perthynas â dysgu digidol a llwyfan gyrfaoedd. Mae'r Panel yn edrych ymlaen at weld sut mae'r Bartneriaeth yn datblygu yn y dyfodol drwy adeiladu ar y sylfeini cynnar da hyn. Hoffai'r Panel bwysleisio'r angen i ymgysylltu â'r gymuned fusnes leol a'i chynnwys ar y bartneriaeth wrth symud ymlaen (a byddwn yn gofyn am ragor o wybodaeth am yr agwedd hon). Cadarnhaol gweld is-grŵp i edrych ar NEETs, a fydd yn faes hanfodol y gall yr holl bartneriaid ddylanwadu arno wrth symud ymlaen. Er mwyn cytuno ar y camau nesaf, rhaid cynnwys ffocws ar yr heriau a wynebir gan ddysgwyr sy'n agored i niwed. Diolchodd y cynghorwyr i bawb a fynychodd y cyfarfod gan ddweud y gall y Panel bellach weld map llwybr ar gyfer dyfodol y Bartneriaeth.

## 6 Diweddariad ar Gynllun Adfer Addysg Covid

Amlinellodd Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau a'r Cyfarwyddwr Addysg y sefyllfa bresennol mewn perthynas â COVID a'i effeithiau ar addysg.

- Ym mis Rhagfyr, roedd cyfarwyddeb weinidogol i ddysgu o bell a oedd yn teimlo fel y peth iawn i'w wneud. Ond mae'n anoddach i ysgolion cynradd gynnal dysgu o bell gan fod disgyblion yn llai abl i gymryd rhan mewn dysgu hunangyfeiriedig.
- Roedd lefel presenoldeb wedi gostwng i 44% cyn y gyfarwyddeb. Ar gyfer mwyafrif y tymor, 80% oedd y gyfradd bresenoldeb
- Roedd 92 o'r 94 ysgol yn Abertawe wedi cael eu heffeithio gan achosion positif. Roedd gan un ysgol y nifer uchaf o achosion, sef 69, gyda nifer o ysgolion â mwy na 25 o achosion.
- Hyd yma, bu 938 o achosion positif mewn ysgolion ac yna mwy o blant ysgol yn hunanynysu.

- Mae'r tarfu wedi bod yn sylweddol.
- Dywedwyd wrth y Panel na fydd pob disgybl yn dechrau nôl ar y 4 Ionawr a bydd yn dibynnu ar y sefyllfa ar y pryd. Bydd gallu ysgolion i weithredu'n ddiogel yn dibynnu ar a ydynt yn mynd yn ôl i addysgu wyneb yn wyneb ar ddechrau'r tymor. Dechrau gyda diogelwch a staffio.
- Mae'n bwysig dysgu oddi wrth yr ysgolion hynny sydd wedi cael cyfraddau positif uchel ond mae'n ymddangos bod cyfraddau trosglwyddo cymunedol yn allweddol. Ystyried pethau fel cyflwyno newid parthau ysgolion etc.
- Gweithio mewn partneriaeth ag Iechyd Cyhoeddus Cymru i nodi unrhyw batrymau mewn ysgolion sy'n ddefnyddiol wrth ddysgu a deall hyn.
- Cynigir profion llif ochrol i atal hunanynysu ar gyfer cysylltiadau mewn ysgolion. Mae agweddau ymarferol a logisteg yn ei gwneud yn anodd gweithredu hyn ac mae angen ymchwilio mwy iddo.

## 7 **Cynllun Gwaith 2020/2021**

Oherwydd y pwysau presennol ar yr Adran Addysg, mae'r Panel wedi cytuno i ohirio'r holl eitemau a drefnwyd ym mis Ionawr a mis Chwefror, ar wahân i dderbyn diweddariad COVID addysg ar lafar a'r Gyllideb Flynyddol am ei fod yn ymwneud ag addysg. Caiff hyn ei adolygu ddechrau mis Mawrth.

## 8 **Er gwybodaeth - Adroddiad Archwiliad Blynyddol**

Nodwyd adroddiad blynyddol yr Archwiliad o'r Ysgol.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.27 pm

**Cadeirydd**